**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit:

26 Mawrth 2019

Annwyl Jeremy,

**Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a pharatoadau ar gyfer Brexit yng Nghymru**

Hoffwn ddiolch i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Llun, 11 Mawrth lle buom yn trafod nifer o faterion, gan gynnwys adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ar baratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb a materion eraill sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn edrych yn fanwl ar y paratoadau ar gyfer Brexit heb gytundeb i gyrff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac rydym yn cefnogi ei ganfyddiadau a'i gasgliadau yn llawn.

Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd parhaus o ran Brexit a bod digwyddiadau diweddar yn San Steffan wedi gwneud fawr ddim i leddfu'r ansicrwydd hwn. Yng ngoleuni eich tystiolaeth, rydym yn ysgrifennu atoch i gynnig nifer o'n safbwyntiau a'n hargymhellion ein hunain.

**Cyd-destun ehangach a'r Cytundeb Ymadael**

Rydym wedi dweud dro ar ôl tro na allwn gymeradwyo Brexit heb gytundeb i fod yn angenrheidiol nac yn ddymunol, ac rydym wedi tynnu sylw eisoes at yr effaith niweidiol a allai ei gael ar sectorau allweddol o'n heconomi. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, y sefyllfa yw nad yw'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol wedi'u cymeradwyo eto gan Senedd y DU, a'r sefyllfa gyfreithiol felly yw bod y DU yn gadael yr UE ar 29 Mawrth 2019. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod y Prif Weinidog wedi dweud y bydd Llywodraeth y DU yn gofyn naill ai am estyniad technegol byr er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i'r Cytundeb Ymadael, neu estyniad hirach er mwyn ail-negodi'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol ymhellach.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Rydym yn cydnabod bod hyn yn gefndir hynod heriol i gyrff cyhoeddus, cyrff preifat a chyrff y trydydd sector yng Nghymru ei wynebu.

**Cynllunio a pharodrwydd cyffredinol**

Yn gyntaf, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy o ran cynllunio ar gyfer gwahanol senarios, gan gynnwys cynllunio ar gyfer 'dim cytundeb', yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2018. Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad hefyd fod angen i bobl o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector gael arweiniad cliriach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylent fod yn paratoi ar gyfer Brexit.

Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol yn cymryd y gwaith o gynllunio ar gyfer Brexit 'dim cytundeb' o ddifrif, a bod ymdrechion wedi cynyddu ers haf 2018. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'n hadroddiadau sectoraidd diweddaraf ar barodrwydd Brexit, a gyhoeddwyd yn nhymor yr hydref 2018.

Rydym yn nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr pob corff cyhoeddus yng Nghymru fis Ionawr 2019 i'w sicrhau na fyddai gwariant ar gynllunio rhesymol ar gyfer Brexit 'dim cytundeb' yn cael ei ystyried i fod yn wastraffus. Rydym yn cefnogi'r camau a gymerwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn gymesur, gan nodi bod rhaid cael cydbwysedd rhwng darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen a pharatoi ar gyfer pob senario Brexit.

**Materion yn ymwneud â chapasiti**

Canfu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd fod nifer o gyrff yn ei chael hi'n anodd sicrhau’r capasiti i gynllunio ar gyfer Brexit, gan wneud gwaith cynllunio ar ben y gwaith beunyddiol. Erbyn hyn, mae gan awdurdodau lleol yn enwedig lawer llai o aelodau staff sydd â'r arbenigedd polisi a chynllunio trawsbynciol sydd ei angen i baratoi ar gyfer Brexit.

Byddai'n ddefnyddiol i ni pe gallech amlinellu yn eich ymateb sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion capasiti a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn enwedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Cynlluniau wrth gefn**

Yn ei adroddiad, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil a chynllunio wrth gefn wedi'u diweddaru i roi ystyriaeth i Brexit, gan gynnwys ar gyfer senario 'dim cytundeb'. At hynny, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol, er bod cynllunio ar

gyfer Brexit wedi arwain at sefydliadau'n gweithio ar draws seilos, mae lle o hyd i gydweithredu ymhellach wrth ddatblygu a darparu cynlluniau i reoli materion a risgiau cyffredin.

Bydd gan Lywodraeth Cymru rôl arwain glir os ceir Brexit heb gytundeb. Rydym yn galw ar y Llywodraeth i ddefnyddio'r holl bwerau ac adnoddau sydd ar gael iddi i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu cydweithio'n effeithiol wrth gyflwyno cynlluniau sifil wrth gefn yn yr wythnosau nesaf os ceir Brexit heb gytundeb. Rydym yn nodi'r cyhoeddiad diweddar, ar 11 Mawrth 2019, o £500,000 yn ychwanegol i gefnogi gwaith Fforymau Cydnerthedd Lleol a byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o fanylion yn eich ymateb i'r llythyr hwn ynghylch sut y bwriedir gwario'r arian hwn.

Byddem hefyd yn ychwanegu y bydd cyfle i ni asesu ymhellach ymateb Llywodraeth Cymru i senario 'dim cytundeb', pe bai hynny'n digwydd, yn ein sesiwn â'r Prif Weinidog sydd wedi ei threfnu'n syth ar ôl toriad y Pasg.

**Cyfathrebu**

Pe ceir Brexit heb gytundeb, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol mor bwysig yw cael stori glir, gyson a phwyllog i'w dweud wrth y cyhoedd. Yn ystod y dystiolaeth, gwnaethoch ddweud wrthym am y gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau cyfathrebu clir pe bai 'dim cytundeb'. Gwnaethoch ddweud wrthym hefyd am rôl porth Brexit Llywodraeth Cymru – 'Paratoi Cymru/Preparing Wales' – wrth roi arweiniad a gwybodaeth i randdeiliaid a busnesau. Rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU, yn ei phapur ar y goblygiadau i fusnesau a masnach mewn senario 'dim cytundeb', yn amlinellu pryderon ynghylch lefel ymgysylltiad busnesau, gan ddweud mai dim ond tua 40,000 o gofrestriadau a gafwyd am rif Adnabod a Chofrestru Gweithredwr Economaidd (rhif EORI), o gymharu â'r amcangyfrif o tua 240,000 o fusnesau sy'n masnachu â'r UE yn unig.[1]

Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu: sut y mae Llywodraeth Cymru yn hybu'r wefan; a'r ffigurau diweddaraf ar gyfer lefel yr ymgysylltiad y mae Porth Brexit Llywodraeth Cymru, 'Paratoi Cymru/Preparing Wales', wedi'i gael a sut mae hynny'n cyfateb i nifer y busnesau yng Nghymru y mae Llywodraeth Cymru wedi asesu bod angen ymgysylltu â hwy.


---

[1] Llywodraeth EM, 'Implications for Business and Trade of a No Deal Exit on 29 March 2019' - 26 Chwefror 2019; DS: byddai rhif EORI yn caniatáu i fusnesau gwblhau'r dogfennau tollau angenrheidiol ar gyfer nwyddau y maent yn eu mewnforio.

**Dysgu'r gwersi**

Mae Brexit yn broses heb gynsail sy'n cwmpasu sawl agwedd ar fywyd yng Nghymru. Ers ein sefydlu, rydym wedi ymrwymo i godi'r materion sy'n bwysig i Gymru. Mae'n amlwg i ni y bydd gwersi i'w dysgu o ymateb Llywodraeth Cymru i Brexit, ac mae'n fwriad cryf gennym i chwarae rôl wrth ganfod beth yw’r gwersi hyn. Byddwn yn cyhoeddi manylion gwaith i’r perwyl hwn maes o law.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*